# Cynllun Pensiwn Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig ("y Cynllun") Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi

**Nod yr Ymddiriedolwyr yw buddsoddi asedau'r Cynllun yn ochelgar gyda'r bwriad y bydd y buddion a addewir i aelodau yn cael eu darparu. Wrth bennu strategaeth fuddsoddi, ystyriodd yr Ymddiriedolwyr yn y lle cyntaf, y dyraniad asedau risg isaf y gallent ei fabwysiadu mewn perthynas â rhwymedigaethau'r Cynllun. Mae'r strategaeth dyrannu asedau a ddewiswyd ganddynt wedi'i dylunio i gyflawni enillion uwch na'r strategaeth risg isaf wrth gynnal agwedd ochelgar at fodloni rhwymedigaethau'r Cynllun.**

## STRATEGAETH

Amlinellir y **strategaeth dyrannu asedau arfaethedig**, gyfredol a ddewiswyd i fodloni'r amcan uchod yn y tabl isod. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r dyraniad asedau gwirioneddol yn erbyn y pwysau targed a'r ystodau a amlinellir yn y tabl isod.

| **Dosbarth Ased** | | **Meincnod Canolog %** | **Ystodau Rheoli %** |
|---|---|---|---|
| **Ecwiti:** | | | |
| Ecwiti Byd-eang | Cronfa Mynegai Ecwiti'r Holl Fyd - Arian Cyfred GBP Wedi'i Warchod Rhag Chwyddiant | 50.0 | 47.5-52.5 |
| **Bondiau:** | | | |
| Bond Corfforaethol | Cronfa Mynegai Bond Corfforaethol AAA-AA-A Dros 15 Mlynedd | 10.0 | 9.0-11.0 |
| Giltiau yn Gysylltiedig â'r Mynegai | Cronfa Mynegai Giltiau yn Gysylltiedig â'r Mynegai Dros 5 Mlynedd | 40.0 | 37.5-42.5 |
| **Cyfanswm** | | **100.0** | - |

Pennwyd y strategaeth dyrannu asedau arfaethedig mewn perthynas â nodweddion actiwaraidd y Cynllun, yn benodol cryfder y sefyllfa gyllido a'r proffil rhwymedigaethau. Polisi'r Ymddiriedolwyr yw gwneud y rhagdybiaeth y bydd ecwiti yn perfformio'n well na giltiau dros y tymor hir. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod yr anwadalrwydd posib o ran enillion ecwiti, yn benodol mewn perthynas â rhwymedigaethau'r Cynllun a'r risg nad yw'r rheolwr cronfeydd yn cyflawni'r targedau a osodwyd. Wrth ddewis strategaeth dyrannu asedau arfaethedig y Cynllun ystyriodd yr Ymddiriedolwyr gyngor ysgrifenedig gan eu cynghorwyr buddsoddi ac, wrth wneud hynny, aethpwyd i'r afael â'r canlynol:

- Yr angen i ystyried yr ystod lawn o ddosbarthiadau ased yn cynnwys eiddo.
- Risgiau a gwobrau ystod o strategaethau dyrannu asedau eraill.
- Addasrwydd pob dosbarth ased.
- Yr angen am amrywiaeth briodol.

Yn ogystal, ymgynghorodd yr Ymddiriedolwyr â'r cyflogwr noddi wrth bennu'r strategaeth hon.

# RISG

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cynnal 'Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi' sy'n nodi mai'r amcan cyllido yw cael asedau digonol i allu darparu ar gyfer 100% o rwymedigaethau'r Cynllun fel y'i pennwyd gan gyfrifiad actiwaraidd.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod mai'r risg allweddol i'r Cynllun yw nad oes ganddo asedau digonol i wneud darpariaethau ar gyfer ei rwymedigaethau ("risg cyllido"). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi adnabod nifer o risgiau sydd â'r potensial i achosi dirywiad yn lefelau cyllido'r Cynllun ac felly cyfrannu at y risg cyllido. Mae'r rhain fel y ganlyn:

- Y risg o wahaniaeth sylweddol yn sensitifrwydd gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau i newidiadau mewn ffactorau ariannol a demograffeg ("risg o gamgymharu"). Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr y risg hon o ran diffyg cyfatebiaeth wrth bennu'r strategaeth fuddsoddi.
- Y risg o ddiffyg asedau hylifol mewn perthynas â rhwymedigaethau uniongyrchol y Cynllun ("risg llif arian"). Bydd Ymddiriedolwyr yn rheoli llifoedd arian y Cynllun gan ystyried amseru taliadau yn y dyfodol er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd.
- Methiant ar ran y rheolwyr cronfeydd i gyflawni'r gyfradd enillion ar fuddsoddiad a ragdybiwyd gan yr Ymddiriedolwyr ("risg rheolwyr"). Ystyrir y risg hon gan Ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr wrth benodi'r rheolwyr cronfeydd yn y lle cyntaf ac yn barhaus ar ôl hynny.
- Methiant i ledaenu'r risg buddsoddi ("risg o ddiffyg amrywiaeth"). Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr y risg hon wrth bennu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun ac maent hefyd wedi rhoi mandad i bob un o'r rheolwyr cronfeydd a gyflogir y dylid cynnal portffolio amrywiol addas o asedau bob amser.
- Y posibilrwydd o gyflogwr noddi'r Cynllun yn methu ("risg cyfamod"). Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr y risg hon wrth bennu'r strategaeth fuddsoddi ac maent wedi ymgynghori â'r cyflogwyr noddi ynglŷn ag addasrwydd y strategaeth arfaethedig.
- Y risg o dwyll, cyngor gwael neu weithredoedd esgeulus ("risg gweithredol"). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ceisio lleihau risg o'r fath drwy sicrhau bod gan yr holl gynghorwyr a darparwyr gwasanaeth trydydd sector y cymwysterau a'r profiad addas a bod cymalau iawndal ac atebolrwydd priodol yn cael eu cynnwys ym mhob contract ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a dderbynnir.
- Y risg y gall ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu effeithio ar enillion y dyfodol ("risg ffactorau Amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ("ESG")"). Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y gall risgiau ESG gael effaith ariannol fawr ar yr enillion ar eu buddsoddiadau yn y dyfodol ac mae camau gweithredu'r Ymddiriedolwyr ar gyfer lliniaru'r rhain i'w cael yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

O ganlyniad i natur gymhleth a chydgysylltiedig y risgiau hyn, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y rhan fwyaf o'r risgiau hyn mewn modd ansoddol yn hytrach na meintiol fel rhan o bob adolygiad ffurfiol o'r strategaeth fuddsoddi (bob tair blynedd fel arfer). Mae'n bosib hefyd y bydd rhai o'r risgiau hyn yn cael eu modelu'n glir yn ystod adolygiadau o'r fath.

Wedi pennu amcan buddsoddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rhwymedigaethau'r Cynllun a'i weithredu yn defnyddio rheolwr cronfeydd, polisi'r Ymddiriedolwyr yw monitro'r risgiau hyn bob chwarter, lle bo'n bosib. Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn adroddiadau chwarterol sy'n dangos:

- Perfformiad yn erbyn meincnod buddsoddi'r Cynllun.
- Perfformiad rheolwyr cronfeydd unigol yn erbyn eu targedau eu hunain.

- Unrhyw broblemau sylweddol gyda'r rheolwr cronfeydd a all effeithio ar eu gallu i gyrraedd targedau perfformio a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

# GWEITHREDU

Dewiswyd Kerr Henderson (Consultants and Actuaries) Limited fel cynghorydd buddsoddi i'r Ymddiriedolwyr. Maent yn gweithredu dan gytundeb i ddarparu gwasanaeth sy'n sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr wedi'u briffio'n llawn i wneud penderfyniadau eu hunain a monitro'r rheiny a ddirprwyant. Telir ffi flynyddol i Kerr Henderson (Consultants and Actuaries) Limited am ystod a gytunwyd arni o wasanaethau sy'n ofynnol yn rheolaidd. Codir ffi ar wahân ar gyfer unrhyw wasanaethau ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystod a gytunwyd arni. Dewiswyd y strwythur hwn i sicrhau y derbynnir cyngor annibynnol, cost-effeithiol.

## Rheolwr Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr, gydag arweiniad gan Kerr Henderson (Consultants and Actuaries) Limited, wedi dewis Legal and General Investment Management ("LGIM") fel Rheolwr Buddsoddi'r Gronfa. Awdurdodir a rheoleiddir LGIM gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Mae amcanion buddsoddi LGIM ar gyfer pob cronfa fel a ganlyn:

| Enw'r Gronfa | Meincnod (Ystod) | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Ecwiti Goddefol** | | |
| Cronfa Mynegai Ecwiti'r Holl Fyd L&G - Arian Cyfred GBP Wedi'i Warchod Rhag Chwyddiant | 50% (47.5 - 52.5)% | Nod y Gronfa yw olrhain perfformiad Mynegai Byd - yr Holl Fyd FTSE (GBP wedi'i warchod rhag chwyddiant). |
| **Bondiau Goddefol** | | |
| Cronfa Mynegai Giltiau sy'n Gysylltiedig â'r Mynegai Dros 5 Mlynedd L&G | 40% (37.5 - 42.5)% | Nod y Gronfa yw olrhain perfformiad Mynegai Giltiau yn Gysylltiedig â'r Mynegai (Dros 5 Mlynedd) Actiwaraidd FTSE. |
| Cronfa Mynegai Holl Stociau - Bondiau Corfforaethol AAA-AA-A L&G | 10% (9 - 11)% | Nod y Gronfa yw olrhain perfformiad Mynegai (ex-BBB) Dim Giltiau £ iBoxx. |

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo pob penderfyniad o ddydd i ddydd ynglŷn â'r buddsoddiadau sydd o fewn y mandad, yn cynnwys gwireddu buddsoddiadau, i'r Rheolwr Buddsoddi drwy gontract ysgrifenedig. Wrth ddewis buddsoddiadau, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr a'r Rheolwr Buddsoddi (i'r graddau y dirprwyir iddynt) roi sylw i'r meini prawf ar gyfer buddsoddi a amlinellir yn y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi) 2005 (rheoliad 4).

Mae dyletswyddau'r Rheolwr Buddsoddi hefyd yn cynnwys:

- Ystyried ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesegol wrth ddewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau.
- Pleidleisio a llywodraethu corfforaethol mewn perthynas ag asedau'r Cynllun yn cynnwys ystyried Datganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyfranddalwyr Sefydliadol ar gyfrifoldebau Cyfranddalwyr ac Asiantau Sefydliadol.

*Gweithgarwch pleidleisio*

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu'r datganiadau o lywodraethu corfforaethol a gyhoeddir gan eu rheolwr cronfeydd ac yn monitro gweithgarwch pleidleisio yn rheolaidd.

Polisi'r Ymddiriedolwyr yw buddsoddi mewn mecanweithiau buddsoddi cyfun. Y Rheolwr Buddsoddi sy'n gyfrifol am arfer yr hawliau (yn cynnwys hawliau pleidleisio) ynghlwm â'r buddsoddiadau hyn.

Polisi'r Ymddiriedolwyr mewn perthynas ag unrhyw hawliau (yn cynnwys hawliau pleidleisio) ynghlwm â'u buddsoddiadau yw arfer yr hawliau hyn i amddiffyn gwerth buddiannau'r Cynllun yn y buddsoddiadau, gan roi sylw i gyngor priodol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r Rheolwr Buddsoddi ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi (a phersonau perthnasol eraill yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, rheolwyr buddsoddi, rhoddwyr/deiliaid dyledion ac ecwiti eraill a rhanddeiliaid eraill) ar agweddau megis perfformiad, strategaeth, strwythur cyfalaf, rheolaeth o wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib, risgiau, llywodraethu corfforaethol, materion cymdeithasol ac amgylcheddol ynghylch buddsoddiadau'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu y bydd ymgysylltu o'r fath yn amddiffyn ac ehangu gwerth hirdymor eu buddsoddiadau.

*Polisi ACLl*

Polisi'r Ymddiriedolwyr tuag at ystyriaethau a all gael effaith ariannol fawr (yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, yn cynnwys newid yn yr hinsawdd) yw monitro'r rheolwr buddsoddi y maent yn dirprwyo'r swyddogaeth hon iddynt drwy fuddsoddi mewn cronfeydd olrhain mynegai cyfun. Mae'r Rheolwr Buddsoddi yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar eu hymgysylltiad â chwmnïau ynglŷn ag ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod pwysigrwydd ffactorau ESG ar berfformiad buddsoddi yn y tymor hir a risgiau anfanteisiol ar unwaith ac yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi pennu fframwaith monitro priodol i sicrhau bod Rheolwr Buddsoddi'r Cynllun yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Nod y fframwaith monitro yw hyrwyddo mwy o dryloywder a dealltwriaeth well o'r rhesymau y tu ôl i dueddiadau perfformio ac amlygiad i risgiau allweddol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod pwysigrwydd monitro perfformiad, taliad cydnabyddiaeth a chydymffurfiaeth y Rheolwr Buddsoddi yn erbyn y polisi ESG yn rheolaidd i sicrhau bod asedau'r Cynllun yn cael eu rheoli'n briodol. Bydd monitro a chyfathrebu'n rheolaidd â'r Rheolwr Buddsoddi, gyda chyfeiriad penodol at ffactorau ESG, yn symbylu Rheolwr Buddsoddi'r Cynllun i asesu a gwella perfformiad tymor canolig a thymor hir y cwmnïau buddsoddi, yn ariannol ac anariannol.

Yn ychwanegol i fesurau perfformio, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu gweithgarwch ymgysylltu'r Rheolwr Buddsoddi i sicrhau bod ymgysylltu gweithredol yn digwydd lle bo'n bosib, i ysgogi newid cadarnhaol mewn perthynas â ffactorau ESG o fewn cwmnïau buddsoddi. Bydd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn monitro gweithgarwch pleidleisio'r Rheolwr Buddsoddi i sicrhau bod pleidleisiau yn cael eu defnyddio ac yn alinio â'u safbwyntiau ynghylch ESG.

Nid yw taliad cydnabyddiaeth y rheolwr buddsoddi yn uniongyrchol gysylltiedig â pherfformiad, o ystyried absenoldeb ffioedd yn gysylltiedig â pherfformiad, neu arferion ESG. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu a diswyddo'r rheolwr buddsoddi os nad yw ffioedd gros perfformiad buddsoddi, nodweddion risg ac arferion ESG yn cyd-fynd â disgwyliadau a safbwyntiau'r Ymddiriedolwyr.

Os yw'r Ymddiriedolwyr yn credu nad yw Rheolwr Buddsoddi'r Cynllun yn gweithredu'n unol â pholisïau'r Ymddiriedolwyr mwyach, yn cynnwys y rheiny ynghylch ESG ac ymgysylltu â sefydliadau buddsoddi i asesu a gwella eu perfformiad ariannol ac anariannol yn y tymor canolig a thymor hir, bydd yr Ymddiriedolwyr yn cymryd y camau canlynol:

- ymgysylltu â'r Rheolwr Buddsoddi yn y lle cyntaf, mewn ymgais i ddylanwadu ar eu polisïau ar ESG a stiwardiaeth; ac
- os oes angen, edrych ar benodi Rheolwr/Rheolwyr Buddsoddi newydd sy'n cyd-fynd yn fwy agos â pholisïau a safbwyntiau'r Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu y bydd y camau hyn yn symbylu'r rheolwr buddsoddi i alinio eu gweithredoedd â pholisïau'r Ymddiriedolwyr ac i ymddwyn yn gyfrifol hefyd.

Mae'r Ymddiriedolwyr, gydag arweiniad gan Kerr Henderson (Consultants and Actuaries) Limited, wedi dewis buddsoddi mewn cronfeydd cyfun penagored. Ar gyfer y cronfeydd hyn, polisi'r Ymddiriedolwyr yw ymuno â threfniadau heb ddyddiad gorffen penodol. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ceisio ymuno â threfniadau lle mae ganddynt y pŵer i derfynu'r rhain yn unol â hylifedd yr asedau sylfaenol ac fel y cytunwyd yn y mandad. Ymdrinnir â buddsoddiadau penagored y Cynllun yn wythnosol (ac ymdrinnir â'r gronfa eiddo yn fisol). Bydd yr Ymddiriedolwyr yn pennu a ddylid terfynu trefniadau o'r fath yn barhaus drwy eu gwaith rheolaidd yn monitro perfformiad y Rheolwr Buddsoddi yn erbyn amcanion. Gall yr Ymddiriedolwyr ddewis terfynu'r trefniant gyda'r Rheolwr Buddsoddi hefyd wrth berfformio adolygiadau parhaus o addasrwydd dyraniad asedau'r Cynllun dros amser.

Ni ystyrir materion anariannol (h.y. safbwyntiau aelodau a buddiolwyr yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) eu safbwyntiau moesegol mewn perthynas ag effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ac ansawdd bywyd aelodau a buddiolwyr y Cynllun yn y presennol a'r dyfodol) yn uniongyrchol wrth ddewis, cadw a gwireddu buddsoddiadau

# LLYWODRAETHU

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am fuddsoddi asedau'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwneud rhai penderfyniadau eu hunain ac yn dirprwyo eraill. Wrth benderfynu pa benderfyniadau i'w gwneud eu hunain a pha rai i'w dirprwyo, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried a oes ganddynt yr hyfforddiant priodol a chyngor arbenigol i allu gwneud penderfyniad deallus. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi sefydlu'r strwythurau penderfynu canlynol:

**Ymddiriedolwyr**

- Pennu strwythurau a phrosesau ar gyfer cyflawni eu rolau.
- Dewis a monitro strategaeth dyrannu asedau arfaethedig, yn cynnwys ystyriaethau ESG a gweithredu.
- Monitro enillion gwirioneddol yn erbyn amcan buddsoddi'r Cynllun.
- Dewis ac adolygu buddsoddiadau uniongyrchol (gweler isod).

**Cynghorydd Buddsoddi**

- Cynghori ar bob agwedd ar fuddsoddi asedau'r Cynllun, yn cynnwys ESG a gweithredu.
- Cynghori ar y datganiad hwn.
- Darparu hyfforddiant gofynnol.

**Rheolwr Buddsoddi**

- Gweithredu o fewn telerau'r datganiad hwn a'u contractau ysgrifenedig.
- Dewis buddsoddiadau unigol gan roi sylw i'w haddasrwydd ac amrywiaeth.
- Gwneud sylwadau, lle bo'n berthnasol, ar addasrwydd y mynegeion yn eu meincnod.
- Yn gyfrifol am stiwardiaeth buddsoddiadau sylfaenol

Mae Deddf Pensiynau 1995 yn gwahaniaethu rhwng buddsoddiadau lle dirprwyir rheolaeth i'r rheolwr cronfeydd gyda chontract ysgrifenedig a'r rheiny lle prynir cynnyrch yn uniongyrchol, e.e. prynu polisi yswiriant neu unedau mewn mecanwaith cyfun. Gelwir y math olaf yn **fuddsoddiadau uniongyrchol.**

Polisi'r Ymddiriedolwyr yw adolygu eu buddsoddiadau uniongyrchol a cheisio cyngor ysgrifenedig yn eu cylch yn flynyddol. Mae'r rhain yn cynnwys mecanweithiau ar gael ar gyfer Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol aelodau. Wrth bennu a ddylid gwneud unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol newydd ai peidio, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ceisio cyngor ysgrifenedig ac yn ystyried a ddylid dirprwyo penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y buddsoddiadau hynny i'r rheolwr cronfeydd.

Bydd y cyngor ysgrifenedig yn ystyried y materion a amlinellir yn y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi) 2005 a'r egwyddorion a geir yn y datganiad hwn. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr (neu i'r graddau y dirprwyir i'r rheolwyr cronfeydd) ystyried pob buddsoddiad yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Buddiannau gorau'r aelodau a buddiolwyr
- Diogelwch
- Ansawdd
- Hylifedd
- Elw
- Natur a hyd rhwymedigaethau
- Natur fasnachadwy ar farchnadoedd a reoleiddir
- Amrywiaeth
- Defnydd o ddeilliadau

Mae gan gynghorydd buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yr wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol dan Ddeddf Pensiynau 1995.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r rheolwr cronfeydd reoli'r asedau a ddirprwyir iddynt o dan delerau eu contractau eu hunain a gweithredu'r egwyddorion yn y datganiad hwn i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

Telir y rheolwr cronfeydd ar sail ad valorem. Adolygir lefel y taliad cydnabyddiaeth a delir i'r rheolwr cronfeydd yn rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr yn erbyn cyfraddau'r farchnad yng nghyd-destun maint a chymhlethdod y Cynllun i sicrhau bod buddiannau'r rheolwr cronfeydd yn alinio â rhai'r Cynllun.

Yn ogystal, mae'r rheolwr cronfeydd yn talu comisiynau i drydydd partïon ar sawl masnach yr ymgymerir â nhw wrth reoli'r asedau ac maent hefyd yn ysgwyddo costau ad hoc eraill. Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn datganiadau gan y rheolwr cronfeydd yn amlinellu'r costau hyn ac yn eu hadolygu yn rheolaidd gyda chyngor gan eu cynghorydd buddsoddi. Mae hyn er mwyn sicrhau bod costau a ysgwyddir yn gymesur â'r nwyddau a gwasanaethau a geir.

Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu costau a ffioedd rheoli buddsoddiadau ychwanegol (yn cynnwys costau trosiant y portffolio) yn rheolaidd, ac wrth ddewis unrhyw fandad, i sicrhau eu bod yn briodol ac yn gystadleuol ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro trosiant y portffolio yng nghyd-destun yr hyn y mae'r Ymddiriedolwyr yn credu sy'n rhesymol o ystyried natur pob mandad. Drwy fonitro perfformiad a chostau cysylltiedig hefyd, symbylir y Rheolwr Buddsoddi i ystyried effaith trosiant y portffolio ar berfformiad buddsoddi.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi hwn bob tair blynedd o leiaf ac yn dilyn unrhyw newid sylweddol i'r polisi buddsoddi. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ceisio cyngor buddsoddi ac yn ymgynghori â'r Cyflogwr Noddi ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Medi 2020